

ADRODDIAD BLYNYDDOL - 2015/16

Cynghorydd: Ann Williams	Grŵp: Plaid Cymru
Ward: Ogwen	
Bwriad yr adroddiad blynyddol: Pwrpas yr Adroddiad Blynyddol yw cynorthwyo etholwyr i wybod mwy am waith a gweithgareddau eu haelodau etholedig yn ystod y flwyddyn.	
Rôl a chyfrifoldebau: Aelod dros Ward Ogwen, Bethesda Aelod o'r pwyllgorau canlynol: Craffu Gwasanaethau, Trwyddedu, Apeliadau Cyflogaeth, Fforwm Ardal Ogwen	
Gweithgareddau etholaethol: Cynnal cymorthfeydd anffurfiol yn rheolaidd er mwyn derbyn cwynion a sylwadau fy etholwyr Mynychu cymorthfeydd Hywel Williams AS ac Alun Ffred AC yn rheolaidd yn y dyffryn Cefnogi a chynorthwyo etholwyr unigol, a grwpiau o etholwyr, mewn nifer o achosion Cadw golwg cyson ar gyflwr y ward wrth fynd o gwmpas Ymgyrchu'n galed a rheolaidd i wella sefyllfa baw ci a sbwriel yn fy ward Cysylltu, a chyfarfod yn rheolaidd, gyda swyddogion y Cyngor ar faterion sy'n ymwneud â'r ward Wedi llwyddo i gael y Cyngor i wneud gwaith draenio dŵr sylweddol ar Ffordd Pantglas, ble'r oedd problemau wedi bod ers amser Sicrhau fod yr holl ward yn cael sylw teg gan y Cyngor Cyswllt cyson gyda'r Heddlu ynglŷn â chyfraith a threfn yn y ward Cyswllt rheolaidd gyda Chartrefi Cymunedol Gwynedd er mwyn sicrhau lles y tenantiaid Wedi gweithio gyda Chyngor Gwynedd, Aelod Cynulliad, ac aelodau o wahanol grwpiau, i geisio atgyfodi'r gwasanaeth bws Sherpa i fyny Nant Ffrancon. Llwyddwyd i gael peilot pedwar mis gyda bws yn rhedeg o Fangor i Fetws y Coed trwy Fethesda deirgwaith y dydd ar Sadwrn, Sul, a gwyliau banc Wedi mynychu sawl cyfarfod gyda swyddogion y Cyngor ar ddyfodol y Llyfrgell yn y ward Wedi mynychu cyfarfodydd gyda swyddogion y Cyngor i drafod dyfodol Canolfan Cefnfaes Yn dilyn sawl cyfarfod, llwyddwyd i gael telerau ffioedd ffafriol yn y ddau faes parcio yn fy ward – un heb godi tâl am barcio, a'r llall yn cynnwys ffioedd rhesymol Yr wyf yn cydweithio gyda Swyddogion y Cyngor i geisio datrys problemau goryrru mewn ambell le yn y ward Uchafbwynt y flwyddyn oedd bod yn un o drefnwyr yr ail Orymdaith Gŵyl Ddewi ym Methesda, a chydweithio gyda Phartneriaeth Ogwen, y Cyngor Cymuned, a Rheolwr Neuadd Ogwen, i gael diwrnod llwyddiannus iawn	
Mentrau a gweithgareddau eraill: Aelod o Grŵp Balchder Bro Dyffryn Ogwen sy'n gweithredu i gynnal taclusrwydd y dyffryn - er enghraifft, codi sbwriel, gosod basgedi crog, glanhau graffiti oddi ar furiau adeiladau ar y Stryd Fawr. Grŵp o ddisgyblion Ysgol Pen y Bryn wedi cynorthwyo eleni gyda chlirio sbwriel Aelod o Gyngor Cymuned Bethesda Aelod o Bartneriaeth Ogwen Aelod o Bwyllgor Llys Dafydd Ysgrifenyddes Pwyllgor Rheoli Canolfan Cefnfaes Aelod o Bwyllgor Rheoli'r Caban, Gerlan Aelod o Bwyllgor Caban Cysgu, Gerlan Aelod o Gyngor Plwyf Eglwysig Eglwys Glanogwen Aelod o Bwyllgor Cyswllt Chwarel y Penrhyn Aelod o Grŵp Llywio Lon Las Ogwen, sydd wedi llwyddo i ddenu grantiau i gwblhau'r cam olaf ar y llwybr o Fethesda i Dregarth Cefnogi Clwb yr Henoed Gorffwysfan Cynorthwyo Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen Cynorthwyo papur bro Llais Ogwen fel gohebydd lleol Cynorthwyo Eisteddfod Dyffryn Ogwen Is-drysorydd Apêl Eleanor Jones i gasglu arian i brynu offer i Ward Alaw. Casglwyd dros £40,000 ac wedi prynu gwahanol offer i'r ward. Yr Apêl bellach wedi dod i ben Ymweliadau i Gartref Preswyl Plas Ogwen Trefnu boreau coffi i godi arian at achosion da	

Bu i mi fynychu'r Pwyllgorau canlynol:

PWYLLGOR	NIFER CYFARFODYDD*	PRESENNOL	YMDDIHEURO	ABSENNOL
Y Cyngor	6	6	0	0
Pwyllgor Trwyddedu Canolog	5	4	1	0
Is-Bwyllgor Trwyddedu Canolog	7	7	0	0
Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol	4	3	1	0
Is-Bwyllgor Trwyddedu Cyffredinol	1	1	0	0
Pwyllgor Apelau Cyflogaeth	3	3	0	0
Pwyllgor Craffu Gwasanaethau	5	5	0	0
Cyfarfod Paratoi Pwyllgor Craffu Gwasanaethau	5	4	1	0
Fforwm Ardal Ogwen	3	3	0	0

* NIFER CYFARFODYDD Y PWYLLGOR YN YSTOD 2015/16

Canran Presenoldeb: 92%

Roeddwn yn Absennol o'r Pwyllgorau a nodir oherwydd :

Pwyllgor Trwyddedu Mehefin 2015 roeddwn yn gwasanaethu ar y Rheithgor

Cyfarfod Paratoi Hydref 2015 Angladd

Bu i mi gymryd rhan yn y cyfarfodydd, seminarau, ymchwiliadau a gweithdai ychwanegol canlynol:

Hoffwn nodi, yn ychwanegol i'r pwyllgorau uchod, fy mod hefyd wedi mynychu pob un o'r Cyfarfodydd canlynol
Ymchwiliad Craffu – O'r Ysbyty i'r Cartref (Rhan 2)

Ymchwiliad Craffu Alltwen

Gweithdai Arbedion/Toriadau

Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd ar y cyrff allanol neu'r Cyfarfodydd canlynol :

Corff Llywodraethol Ysgol Pen y Bryn

Corff Llywodraethol Ysgol Abercaseg

Canolfan Cefnfaes

Bu i mi fynychu'r sesiynau hyfforddiant Dysgu a Datblygu canlynol:

	Dyddiad
Dementia - Codi Ymwybyddiaeth a datblygu cymunedau demtia cyfeillgar	09-Mai-2016
Côd Ymddygiad 2016 - Diweddariad	23-Mawrth-2016
Trwyddedu	27-Ionawr-2016
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru 2014)	21-Ionawr-2016
Eich Cyfrifoldeb dros Gydraddoldeb	11-Rhagfyr-2015
Modern Gov	25-Tachwedd-2015
Bil Cynllunio (Codi ymwybyddiaeth Aelodau ac Aelodau APCE)	05-Tachwedd-2015
Arwain yn Ddiogel	15-Hydref-2015
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru 2014)	07-Gorffennaf-2015

Cyfanswm nifer o oriau: